**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Gorffennaf 2010**

# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân (Cymru) Ann Jones AC

1. Ar 8 Gorffennaf 2010, cyflwynwyd Mesur arfaethedig, Mesur Diogelwch Tân (Cymru), gan Aelod yn y Cynulliad.

2. Ar 6 Gorffennaf 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur arfaethedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 12 Tachwedd 2010.

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd ar ddyddiad i gwblhau trafodion Cyfnod 2, sef 3 Chwefror 2011 (yn amodol ar gytundeb y Cynulliad i'r penderfyniad ariannol).